# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# 37(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cwestiwn Brys 1

(10 munud)

I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:

**Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** Yn dilyn penderfyniad y Comisiynydd Traffig i ddirymu trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus RJ's o Wem, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau bysiau yng ngogledd-ddwyrain Cymru?

## Cwestiwn Brys 2

(10 munud)

I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Ganolfan Feddygol Rhiwabon yn Wrecsam, sydd wedi dod â'i chontract gyda'r GIG i ben ar ôl methu â llenwi dwy swydd wag am feddygon?

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Canlyniadau PISA

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Ynni

(30 munud)

## 5 Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarfer Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016

(15 munud)

**NDM6180** **Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Tachwedd 2016.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Dadl ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2017-18

(120 munud)

**NDM6179** **Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-2018 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar 18 Hydref 2016.

'Cynigion Cyllideb Ddrafft 2017-18'

**Dogfennau Ategol**
Y Gyllideb Ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-2018
Y Pwyllgor Cyllid Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pob dim a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu nad yw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 yn diwallu anghenion pobl Cymru.

## 7 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2016

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 1 Rhagfyr 2016
# i'w hateb ar 6 Rhagfyr 2016

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith cau banciau ar fusnesau Cymru? OAQ(5)0322(FM)**W**

2. Neil McEvoy (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am Adran 68 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004? OAQ(5)0318(FM)

3. Leanne Wood (Rhondda): Pa fentrau y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio arnynt i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd? OAQ(5)0316(FM)

4. Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gydlyniant cymunedol? OAQ(5)0309(FM)

5. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi amaeth Llywodraeth Cymru yn sgil y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0320(FM)**W**

6. Gareth Bennett (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllid ar gyfer Metro De Cymru? OAQ(5)0317(FM)

7. Huw Irranca-Davies (Ogwr): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn ne Cymru? OAQ(5)0311(FM)

8. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi ffermwyr yn Sir Benfro? OAQ(5)0308(FM)

9. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr arian cyfalaf ychwanegol a bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael yn dilyn

y cyhoeddiad yn Natganiad yr Hydref Llywodraeth y DU? OAQ(5)0323(FM)

**10.** Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflymder presennol band eang ar gyfer ysgolion yn Islwyn? OAQ(5)0319(FM)

**11.** David Melding (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael ei hintegreiddio i waith Llywodraeth Cymru? OAQ(5)0307(FM)

**12.** Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o gynigion i ad-drefnu Cyllid a Thollau EM yng Nghymru? OAQ(5)0324(FM)

**13.** Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyllid canlyniadol Barnett i Gymru o ganlyniad i Ddatganiad yr Hydref? OAQ(5)0313(FM)

**14.** Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi twf busnesau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0325(FM)

**15.** Jeremy Miles (Castell-nedd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol yng Nghastell-nedd? OAQ(5)0315(FM)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**
**Dydd Mawrth 13 a dydd Mercher 14 Rhagfyr 2016**
**Toriad: Dydd Llun 19 Rhagfyr 2016 – dydd Sul 8 Ionawr 2017**
**Dydd Mawrth 10 a dydd Mercher 11 Ionawr 2017**
**Dydd Mawrth 17 a dydd Mercher 18 Ionawr 2017**

---

**Dydd Mawrth 13 Rhagfyr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Banc Datblygu Cymru (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Strategaeth Tlodi Plant Cymru – Adroddiad Cynnydd 2016 (30 munud)
- Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Codau Cyfraith Cymru (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid Troseddol (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2) ar y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol (15 munud)
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau Taladwy) (Cymru) 2016 (15 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud):
    - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016
    - Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016

**Dydd Mercher 14 Rhagfyr 2016**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Ymchwiliad y Pwyllgor i Hawliau Dynol (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer - Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Toriad: Dydd Llun 19 Rhagfyr 2016 - Dydd Sul 8 Ionawr 2017**

**Dydd Mawrth 10 Ionawr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl: Cyllideb Derfynol 2017-18 (60 munud)
- Dadl: Egwyddorion Cyffredinol Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) (60 munud)
- Dadl ar y Penderfyniad Ariannol ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) (5 munud)

**Dydd Mercher 11 Ionawr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)

**Dydd Mawrth 17 Ionawr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Y Bil Undebau Llafur (Cymru) (60 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2017 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyflenwadau Meddygol (Costau) y Gwasanaeth Iechyd (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil (15 munud)

**Dydd Mercher 18 Ionawr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer (30 munud)